# Llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth

## Y Cyfnod Sylfaen

| Elfennau | Agweddau | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** |
| **Trefnu syniadau a gwybodaeth** | **Ystyr**<br>• **diben**<br>• **cynulleidfa**<br>• **syniadau a gwybodaeth**<br>• **defnyddio manylion** | • creu a dweud brawddeg i ddisgrifio digwyddiadau, profiadau a lluniau i gyfleu ystyr<br>• cyfleu ystyr drwy luniau a thrwy wneud marciau<br>• deall natur alffabetig ysgrifennu a bod gan symbolau ysgrifenedig a seiniau ystyron<br>• copïo ac ysgrifennu llythrennau, geiriau ac ymadroddion | • cyfathrebu'n bwrpasol, e.e. *i adrodd stori, i gofio pethau,* efallai â chymorth lluniad<br>• ysgrifennu rhai geiriau ac ymadroddion gan ddarllen eu hymdrechion eu hunain<br>• defnyddio lluniau, symbolau dilyniant o lythrennau a geiriau cyfarwydd i gyfleu ystyr<br>• ysgrifennu ymadroddion a brawddegau syml, e.e. *Dyma, Mae* | • ysgrifennu at ddibenion gwahanol gan ddewis geirfa amrywiol sy'n creu diddordeb<br>• ysgrifennu testun sy'n gwneud synnwyr i ddarllenydd arall sy'n cynnwys manylion a lluniau<br>• ailddarllen eu gwaith ysgrifennu a'i wella i sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr |
| | **Ffurf**<br>**Mathau o destun**<br>• **nodweddion angenrheidiol**<br>• **dechrau**<br>• **dilyniant**<br>• **geiriau cysylltu**<br>• **nodweddion gweledol** | • dechrau gosod geiriau, arwyddion neu symbolau mewn dilyniant priodol*<br>• cyfrannu at ffurf sydd wedi'i modelu gan yr athro/athrawes, e.e. *drwy ysgrifennu ar y cyd*<br>• dangos dealltwriaeth o bwrpas ysgrifennu, e.e. *gwneud cardiau, rhestrau, ac ati* | • trefnu syniadau mewn dilyniant cywir, e.e. *cyfarwyddiadau, ryseitiau**<br>• dilyn ffurf sydd wedi'i modelu gan yr athro/athrawes<br>• deall gwahanol fathau o ysgrifennu, e.e. *cofnod o ddigwyddiadau, disgrifiadau, storïau, rhigymau* | • dilyn, gyda chymorth, strwythur yn eu gwaith ysgrifennu, e.e. *adroddiadau, rhestrau**<br>• dilyn ffurf sydd wedi'i modelu gan yr athro/athrawes, gan ddatblygu darnau'n annibynnol<br>• cynnwys gosodiad cychwynnol, rhywfaint o wybodaeth neu ddisgrifiad, a gosodiad syml i gloi<br>• trefnu a chyflwyno'r gwaith ysgrifennu mewn ffyrdd a ffurfiau gwahanol sy'n cynyddu o ran eu hyd |
| | **TGCh** | • defnyddio lluniau a symbolau i greu gwaith ysgrifenedig ar sgrin | • dewis llythrennau, geiriau a lluniau i greu gwaith ysgrifennu ar sgrin | • arbrofi â gwahanol fformatau a chynlluniau ar y sgrin, gan symud testun a lluniau yn hawdd |
| **Ysgrifennu'n gywir** | **Iaith** | | • dechrau gwahaniaethu rhwng ysgrifen a lleferydd<br>• defnyddio geiriau penodol yn eu ysgrifennu sy'n ymwneud â thopig | • dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng yr iaith lafar a'r iaith ysgrifenedig drwy ddefnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu<br>• defnyddio geiriau syml sy'n perthyn i'r pwnc mewn modd priodol |
| | **Cyflwyniad**<br>**Cystrawen**<br>**Atalnodi**<br>**Sillafu**<br>**Treiglo** | • dal offer ysgrifennu mewn modd priodol<br>• ysgrifennu o'r chwith i'r dde<br>• gwahaniaethu rhwng llythrennau<br>• gwahaniaethu rhwng priflythrennau a llythrennau bach<br>• defnyddio'r gytsain gychwynnol gywir drwy ddechrau defnyddio gwybodaeth ffonig, e.e. *mam*<br>• ysgrifennu cyfres o eiriau mewn trefn o fewn eu profiad, e.e. *ci mawr*<br>• dechrau dangos ymwybyddiaeth bod rhai llythrennau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. *'dau gi bach'*. | • creu llythrennau sydd fel arfer yn glir eu siâp ac wedi'u ffurfio'n gywir<br>• defnyddio priflythyren ac atalnod llawn â pheth cysondeb<br>• dechrau defnyddio arddodiaid cyffredin, e.e. *ar ben, o dan, wrth*<br>• dechrau defnyddio ambell ragenw o fewn cyd-destun, e.e. *fy, ei*<br>• sillafu rhai geiriau mewn modd confensiynol gan gynnwys geiriau cytsain llafariaid cytsain, e.e. *mat***<br>• sillafu rhai geiriau amledd uchel yn gywir**<br>• dangos ymwybyddiaeth bod rhai llythrennau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. *y ferch.* | • ffurfio priflythrennau a llythrennau bach yn gywir ac yn gyson o ran eu maint<br>• defnyddio priflythyren, atalnod llawn a gofynnod yn gywir, a defnyddio ebychnod weithiau<br>• defnyddio arddodiaid cyffredin yn gywir<br>• ysgrifennu cyfres o frawddegau syml yn cynnwys cysyllteiriau, e.e. *a, ac, ond*<br>• dechrau defnyddio geiriau trefnu yn gywir, e.e. *yn gyntaf, yn olaf*<br>• ysgrifennu brawddegau sy'n defnyddio rhai berfau yn gywir yn y person cyntaf a'r trydydd person, e.e. *rydw i, rydyn ni, maen nhw, es i, aethon nhw*<br>• sillafu geiriau sy'n cynnwys llafariaid clwm, e.e. *coed***<br>• sillafu rhai geiriau yn cynnwys y/u/i yn gywir, e.e. *tŷ***<br>• sillafu mwyafrif o eiriau amledd uchel yn gywir**<br>• dechrau defnyddio ambell dreiglad a fydd wedi eu hymarfer ar lafar, e.e. *i Gaerdydd, fy mag.* |

* Uned 5 o *Canllawiau ar addysgu sgiliau ysgrifennu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)
** Uned 8 o *Canllawiau ar addysgu sgiliau ysgrifennu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012

WG14632

## Llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth

### Cyfnod Allweddol 2

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae dysgwyr yn gallu: | Mae dysgwyr yn gallu: | Mae dysgwyr yn gallu: | Mae dysgwyr yn gallu: |
| **Trefnu syniadau a gwybodaeth** | **Ystyr**<br>• **diben**<br>• **cynulleidfa**<br>• **syniadau a gwybodaeth**<br>• **defnyddio manylion** | • ystyried y pwrpas a'r darllenydd wrth ysgrifennu gan ddewis geiriau priodol<br>• cynnwys manylion, gwybodaeth neu sylwadau perthnasol yn eu gwaith ysgrifennu<br>• nodi syniadau i'w defnyddio wrth ysgrifennu<br>• dechrau gwella darnau o'i waith yn annibynnol | • ysgrifennu i bwrpas, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r darllenydd, *e.e. drwy ddewis geirfa a nodweddion cyflwyno priodol*<br>• defnyddio manylion cefnogol i esbonio'r prif syniad(au), gan gynnwys sylwadau ac esboniadau pan fo'n berthnasol<br>• cynllunio'u gwaith ysgrifennu drwy drefnu'r cynnwys<br>• ailddarllen eu gwaith ysgrifennu i'w wirio o ran eglurder a threfn | • trefnu eu gwaith ysgrifennu i ddangos pwrpasau clir<br>• ymhelaethu ar y prif syniad(au) gyda rhesymau, gwybodaeth ac enghreifftiau cefnogol<br>• cynllunio'u gwaith ysgrifennu gan ddewis strwythur addas, *e.e. esboniad neu adroddiad*<br>• diwygio a gwella'u gwaith ysgrifennu, gan drafod pam y maent wedi gwneud newidiadau | • addasu eu harddull ysgrifennu at y gynulleidfa a'r pwrpas, *e.e. arddull ffurfiol ar gyfer darllenydd anhysbys, arddull syml ar gyfer darllenwyr iau*<br>• esbonio syniadau'n llawn, gan ddangos goblygiadau a chanlyniadau<br>• cynllunio gwaith ysgrifennu a'i drefnu i greu effaith, *e.e. arwain at gasgliad*<br>• golygu, myfyrio a gwella'u gwaith ysgrifennu'n annibynnol |
| | **Ffurf**<br>**Mathau o destun**<br>• **adroddiadau**<br>• **traethu**<br>• **perswadio**<br>• **trafod**<br>• **cyfarwyddiadau**<br>• **esbonio** | • defnyddio prif nodweddion ffurfiau ysgrifennu yn briodol, *e.e. cyswllt a'r ddogfen arweiniol**<br>• ysgrifennu cyflwyniad, datblygu cyfres o syniadau a diweddglo<br>• cyflwyno dilyniant clir<br>• defnyddio gwybodaeth weledol os yw'n berthnasol, *e.e. diagramau, darluniau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth ysgrifenedig* | • defnyddio prif nodweddion ffurfiau penodol, *e.e. penawdau, diagramau**<br>• defnyddio nodweddion trefnu priodol, megis cyflwyniad a diweddglo<br>• trefnu'r ysgrifennu drwy ddechrau defnyddio paragraffau er mwyn creu dilyniant neu adrannau rhesymegol<br>• defnyddio gwybodaeth weledol, *e.e. darluniau, diagramau a graffiau*, sy'n glir ac yn berthnasol i'r testun ysgrifenedig | • defnyddio nodweddion ffurfiau penodol mewn modd priodol a'r rheiny'n glir ac yn berthnasol, *e.e. is-benawdau, capsiynau*<br>• ysgrifennu cyflwyniad sy'n gosod cyd-destun, creu cyfres o bwyntiau mewn trefn briodol a diweddglo addas<br>• defnyddio paragraffau, sydd â phrif syniad a manylion perthynol, i drefnu'r gwaith ysgrifennu<br>• defnyddio delweddau, graffiau a darluniau sy'n glir, yn berthnasol ac yn briodol i'r math o destun | • addasu nodweddion ffurf mewn modd priodol at gyd-destunau gwahanol, *e.e. llythyrau sy'n cael eu hysgrifennu at ddibenion gwahanol*<br>• defnyddio nodweddion y ffurf a ddewiswyd, *e.e. cyflwyniad effeithiol sy'n sefydlu'r cyd-destun a'r pwrpas, cydbwysedd addas rhwng ffeithiau a safbwyntiau, a diweddglo cryno*<br>• defnyddio paragraffau neu adrannau i strwythuro ystyr ac effaith<br>• gosod data a syniadau drwy ddefnyddio nodweddion ffurf penodol, *e.e. adroddiad papur newydd* |
| | **TGCh** | • defnyddio swyddogaethau ar y sgrin, *e.e. ffont, lliw, torri, gludo, newid maint*, i gyflwyno'u gwaith mewn ffyrdd sy'n ennyn diddordeb y darllenydd ac yn gwella'r ystyr | • archwilio'r mathau gwahanol o ysgrifennu ar y sgrin a'u defnyddio mewn modd priodol, *e.e. tudalennau gwe, negeseuon e-bost, blogiadau, rhwydweithiau cymdeithasol*, gan addasu'r hyn y maent yn ysgrifennu at y gwahanol fformatau ac arddulliau | • ysgrifennu deunyddiau mewn modd sy'n briodol ar gyfer tudalennau gwe, gan ystyried y fformat, hyd y paragraffau, defnyddio lluniau, dolenni â thudalennau eraill | • ystyried ffyrdd i gyflwyno gwaith, *e.e. sleidiau, delwedd sy'n symud, trosleisio*, a'u defnyddio yn eu gwaith ysgrifennu |
| **Ysgrifennu'n gywir** | **Iaith** | • defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan ddechrau cynnwys Cymraeg safonol pan fo'n berthnasol<br>• defnyddio geirfa sy'n gysylltiedig â'r topig neu â chyd-destun y pwnc | • defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol pan fo'n berthnasol<br>• defnyddio geirfa pwnc penodol yn annibynnol | • defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol pan fo'n berthnasol<br>• defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc penodol | • defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol pan fo'n berthnasol<br>• defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc penodol |
| | **Cyflwyniad**<br>**Cystrawen**<br>**Atalnodi**<br>**Sillafu**<br>**Treiglo** | • cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy a chyflwyno'u gwaith mewn modd priodol<br>• cychwyn brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys geiriau trefnu, *e.e. nesaf, yna*<br>• defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ehangu brawddegau ac ymadroddion syml<br>• defnyddio amrywiaeth o gysyllteiriau sy'n cyfleu achos a chanlyniad, *e.e. achos, ar ôl*<br>• ysgrifennu brawddegau yn defnyddio nifer o ferfau yn gywir yn yr amser presennol, negyddol, gorffennol, a chryno<br>• defnyddio atalnod llawn, gofynnod, ebychnod a choma mewn rhestr<br>• sillafu rhai ffurfiau lluosog**<br>• dechrau sillafu rhai geiriau sy'n swnio'n debyg ond eu sillafu'n wahanol, *e.e. ti, tŷ a tu***<br>• sillafu geiriau yn cynnwys llythrennau dwbl yn gywir, *e.e. fferm, cerdded***<br>• sillafu geiriau yn cynnwys y/u/i yn gynyddol gywir, *e.e. fyny a mynd***<br>• sillafu holl eiriau amledd uchel yn gywir**<br>• defnyddio treigladau mwyaf cyffredin yn gywir ar adegau, *e.e ar ôl 'i' ac 'o', 'fy' ac 'yn' sy'n dynodi enw lle*. | • cynhyrchu llawysgrifen sy'n glir ac yn ddarllenadwy ac a all fod yn glwm<br>• amrywio brawddegau gyda threfn geiriau, ymadroddion a chymalau<br>• defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ychwanegu diddordeb ac er mwyn ysgrifennu yn fanwl-gywir<br>• dechrau defnyddio cymariaethau a phriod-ddulliau pan fo'n briodol<br>• defnyddio cysyllteiriau i greu dilyniant oddi fewn i frawddegau<br>• ysgrifennu brawddegau yn defnyddio nifer o ferfau yn gywir yn yr amser presennol cwmpasog, negyddol, gorffennol a chryno<br>• defnyddio ystod o atalnodi i ddynodi brawddegau a dechrau defnyddio dyfynnod a choma i farcio cymalau ac ymadroddion<br>• sillafu'n gywir holl eiriau amledd uchel yn annibynnol**<br>• ymdrechu i sillafu geiriau sy'n cynnwys patrymau mwy cymhleth, *e.e. geiriau amlsillafog***<br>• sillafu geiriau anghyfarwydd yn cynnwys y/u/i, *e.e. rhywun***<br>• cadarnhau sillafu geiriau lluosog**<br>• sillafu geiriau sy'n swnio'n debyg ond sy'n cael eu sillafu'n wahanol, *e.e. mul a mil, mor a môr***<br>• defnyddio treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, *e.e ar ôl 'i' ac 'o', 'fy' ac 'yn' sy'n dynodi enw lle*. | • cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy<br>• defnyddio cymariaethau a phriod-ddulliau o fewn eu gwaith ysgrifenedig pan fo'n briodol<br>• dechrau defnyddio ystod o gystrawennau ac ymadroddion sy'n weddol gywir<br>• dechrau defnyddio'r amodol, *e.e. os, pe bai,* i gyfleu damcaniaeth neu bosibilrwydd<br>• defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn i'r darllenydd wneud synnwyr o frawddegau cymhleth, drwy ddefnyddio coma, pwyntiau bwled a dyfynodau<br>• ysgrifennu brawddegau yn defnyddio nifer amrywiol o ferfau yn gywir yn yr amser presennol cwmpasog, negyddol, gorffennol a chryno, gorchmynnol<br>• defnyddio amrywiaeth o strategaethau i sillafu geiriau a phatrymau mwy cymhleth**<br>• sillafu terfyniadau lluosog yn gywir**<br>• treiglo'n gywir fel rheol, yn arbennig ar ôl y mwyafrif o arddodiaid a rhagenwau. | • cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy<br>• lliwio mynegiant trwy ddefnyddio ansoddeiriau, cymariaethau a phriod-ddulliau pan fo'n briodol<br>• defnyddio'n hyderus ystod o gystrawennau, cymalau ac ymadroddion sy'n gynyddol gywir<br>• defnyddio'r amodol, *e.e. os, pe bai, i gyfleu damcaniaeth neu bosibilrwydd*<br>• defnyddio ystod o atalnodau yn gywir i egluro'r ystyr, gan gynnwys y collnod wrth hepgor llythrennau<br>• ysgrifennu brawddegau yn defnyddio nifer o ferfau yn gywir yn yr amser presennol cwmpasog, negyddol, gorffennol a chryno, gorchmynnol<br>• defnyddio gwybodaeth am deuluoedd geiriau er mwyn eu sillafu'n gywir, *e.e. gorffen gydag –yd, -ig***<br>• defnyddio amrywiaeth o strategaethau i sillafu geiriau a phatrymau cymhleth, aml-sillafog, *e.e. plan-hig-ion***<br>• sillafu terfyniadau lluosog amrywiol yn gywir**<br>• treiglo'n gywir, ar ôl arddodiaid a rhagenwau, gan ddechrau dod yn ymwybodol nad ydy pob llythyren yn dilyn y drefn arferol, *e.e. y llinell.* |

* Uned 5 o *Canllawiau ar addysgu sgiliau ysgrifennu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)
** Uned 8 o *Canllawiau ar addysgu sgiliau ysgrifennu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012

WG14632

## Llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth

### Cyfnod Allweddol 3

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 7<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 8<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 9<br>Mae dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| **Trefnu syniadau a gwybodaeth** | **Ystyr**<br>**• cynulleidfa**<br>**• diben** | • cyflwyno gwybodaeth, prosesau a syniadau'n glir ac yn briodol at y diben, *e.e. defnyddio arddull ffurfiol*<br>• adnabod gwybodaeth berthnasol a'i chrynhoi i helpu'r darllenydd<br>• defnyddio amryw o strategaethau i gynllunio'u gwaith ysgrifennu, megis nodiadau, diagramau, siartiau llif<br>• nodi meysydd i'w gwella yn eu gwaith ysgrifennu ac ailddrafftio | • addasu cyflwyniad y deunyddiau yn ôl yr ystyr a'r effaith a fwriedir, *e.e. dewis faint o fanylion sy'n angenrheidiol i argyhoeddi*<br>• gwneud cysylltiadau a/neu ymhelaethu er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin yn llawn â'r topig<br>• gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys a'r strwythur<br>• trafod eu gwaith ysgrifennu eu hunain a gwaith ysgrifennu pobl eraill, gan nodi ffyrdd i wella ac ailddrafftio | • crynhoi, trafod materion ac esbonio'n fanwl fel y bo'n briodol at y pwrpas<br>• pwyso a mesur tystiolaeth, ffynonellau, esboniadau a rhesymeg wrth ymdrin â thopig<br>• cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu'r ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol<br>• gwella'u gwaith ysgrifennu drwy ei adolygu'n annibynnol ac ailddrafftio |
| | **Ffurf**<br>**Mathau o destun**<br>**• adroddiadau**<br>**• traethu**<br>**• perswadio**<br>**• trafod**<br>**• cyfarwyddiadau**<br>**• esbonio** | • defnyddio strwythur a chynllun sy'n briodol ar gyfer gwahanol fathau o ysgrifennu, *e.e. disgrifio proses, esbonio tystiolaeth, adrodd canlyniadau*<br>• dewis ffurf gan drefnu syniadau a gwybodaeth yn glir a phriodol<br>• trefnu paragraffau neu adrannau i strwythuro darnau ysgrifennu hirach o ran ystyr neu effaith | • defnyddio strwythur, cynllun a nodweddion y ffurf a ddewiswyd er mwyn arwain y darllenydd, *e.e. adroddiad papur newydd neu daflen*<br>• dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol, gan ddibynnu ar y ffurf a ddewiswyd<br>• strwythuro darnau ysgrifennu hirach yn baragraffau ac adrannau, gan wneud hyn ar draws yr holl ffurfiau | • strwythuro a threfnu eu gwaith ysgrifennu, mewn amryw o ffurfiau, gan ddefnyddio nodweddion priodol yn effeithiol<br>• dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol, gan ddibynnu ar y ffurf a ddewiswyd<br>• strwythuro darnau ysgrifennu hirach yn baragraffau ac adrannau |
| | **TGCh** | • defnyddio TGCh i gyflwyno data ac i strwythuro'r ysgrifennu, gan ddefnyddio dulliau, *e.e. maint y ffont, lliw, saethau, blychau* | • ystyried y ffyrdd gorau i gyflwyno gwahanol fathau o ysgrifennu, *e.e. testun di-dor ar gyfer dadl fanwl, tudalennau â hyperddolenni ar gyfer gwybodaeth wahanol am y topig, graffeg sy'n symud i ddangos prosesau*, er mwyn cyfathrebu'n glir ac effeithiol | • gwneud dewisiadau dychmygus ynghylch cynnwys a chyflwyniad gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio TGCh mewn ffyrdd gwahanol |
| **Ysgrifennu'n gywir** | **Iaith** | • defnyddio geirfa amrywiol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc penodol | • defnyddio termau yn ogystal a mynegiant technegol, sy'n gyson â chynnwys y pwnc | • defnyddio termau mynegiant technegol, sy'n gyson â'r pwnc a'r cynnwys |
| | **Cyflwyniad**<br>**Cystrawen**<br>**Atalnodi**<br>**Sillafu**<br>**Treiglo** | • cadw eu llawysgrifen yn ddarllenadwy<br>• amrywio brawddegau gan ddefnyddio ystod o gystrawennau, cymalau ac ymadroddion yn gywir<br>• defnyddio ystod eang o atalnodau'n gywir i egluro'r ystyr, *e.e. dynodi brawddegau a chymalau a defnyddio'r collnod yn gywir*<br>• defnyddio arddodiaid yn gywir gyda berfau/berfenwau, *e.e. dweud wrth, siarad â (nid dweud i)*<br>• gwahaniaethu rhwng iaith lafar ac iaith ysgrifenedig safonol gan wahaniaethu rhwng ti a chi<br>• defnyddio amryw o strategaethau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc penodol yn gywir**<br>• sillafu geiriau allweddol ac ystod gynyddol o dermau pynciol yn gywir**<br>• sillafu geiriau newydd a geiriau amlsillafog gan ddefnyddio strategaethau sillafu sydd wedi eu dysgu eisoes**<br>• defnyddio ystod o dreigladau yn gywir yn arbennig gydag arddodiaid a rhagenwau. | • cadw eu llawysgrifen yn ddarllenadwy<br>• amrywio brawddegau yn gywir gan fagu annibyniaeth gynyddol wrth ddefnyddio idiomau ac ymadroddion<br>• ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir<br>• amrywio hyd a chystrawen y brawddegau i egluro'r ystyr<br>• defnyddio'r ystod lawn o atalnodau er mwyn egluro'r ystyr, gan gynnwys yr hanner colon, y colon a dyfynodau<br>• defnyddio arddodiaid yn gywir gyda berf, berfenwau yn annibynnol, *e.e. gwrando ar*<br>• defnyddio iaith lafar ac iaith ysgrifenedig safonol i bwrpas gan wahaniaethu rhwng ti a chi<br>• defnyddio amryw o strategaethau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc penodol yn gywir**<br>• sillafu geiriau allweddol a thermau pynciol yn gywir yn y Gymraeg<br>• sillafu mwyafrif o'r geiriau aml sillafog o fewn cyd-destun yn gywir gan ysgrifennu geiriau yn eu ffurf ysgrifenedig safonol lle bo'n briodol**<br>• treiglo'n gywir gan ddatblygu eu gwybodaeth o'r treigladau meddal, trwynol a llaes. | • cadw eu llawysgrifen yn ddarllenadwy<br>• defnyddio brawddegu amrywiol gan ddefnyddio cystrawen gywir, naturiol Gymraeg<br>• ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir<br>• defnyddio'r ystod lawn o atalnodau er mwyn egluro'r ystyr, gan gynnwys yr hanner colon, y colon a chromfachau<br>• defnyddio iaith lafar neu ysgrifenedig safonol i greu effaith gan wahaniaethu rhwng ti a chi<br>• defnyddio ffurfiau cymharol rhai ansoddeiriau, cymariaethau a phriod-ddulliau yn effeithiol<br>• defnyddio amryw o strategaethau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc penodol yn gywir<br>• sillafu geiriau allweddol a thermau pynciol yn gywir yn rheolaidd yn y Gymraeg<br>• sillafu geiriau tafodieithol a safonol yn gywir**<br>• treiglo'n gywir gan ddatblygu'n gynyddol eu gwybodaeth o'r treigladau meddal, trwynol a llaes. |

* Uned 5 o *Canllawiau ar addysgu sgiliau ysgrifennu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)
** Uned 8 o *Canllawiau ar addysgu sgiliau ysgrifennu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012

WG14632